Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Caban Baban**

**Meithrinfa Caban Baban**
**Ffordd Madyn**
**Amlwch**
**LL68 9EW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Meithrinfa Caban Baban

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Alison Hughes |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Chwefror 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a gyda'i gilydd. Maent yn hyderus ac yn gwneud dewisiadau am sut i dreulio eu hamser. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac yn hyderus i ofyn i'r staff am gymorth os oes ei angen arnynt.

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn darparu gofal ymatebol ac yn defnyddio dulliau cadarnhaol i annog y plant i ryngweithio'n dda â'i gilydd. Maent yn ystyried diddordebau unigol ac anghenion datblygiadol y plant wrth gynllunio gweithgareddau i helpu'r plant i ddysgu a datblygu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae ganddynt systemau cadarn ar waith i fonitro a rheoli risgiau a diogelwch tân yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yr amgylchedd yn groesawgar i'r plant ac yn cynnig dewis o deganau a chyfarpar addas, gan gynnwys amrywiaeth dda o gyfleoedd i archwilio deunyddiau naturiol a bywyd go iawn.

Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â'r defnydd o staff er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r cymarebau priodol rhwng oedolion a phlant a bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac ystyrlon. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cydberthnasau addas â'r rhieni, gan sicrhau y rhoddir gwybodaeth iddynt am ddysgu a datblygiad eu plant.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac maent yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Maent yn symud yn rhydd o amgylch y gweithgareddau sydd ar gael ac yn arwain a chyfarwyddo eu chwarae eu hunain drwy gydol y dydd. Mae'r plant wedi ffurfio cydberthnasau agos â'r staff ac yn teimlo'n hyderus i fynd atynt am dawelwch meddwl pan fydd ei angen arnynt, gan wybod y bydd yn cael ei roi'n ddi-oed, heb gwestiwn. Er enghraifft, pan fyddant wedi blino neu'n dadlau â'u ffrindiau, neu pan fyddant newydd ddeffro ar ôl bod yn cysgu. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod y staff yn parchu pob ymgais ganddynt i gyfathrebu, ac yn gwrando'n astud ar yr hyn sydd gan y plant i'w ddweud. Er enghraifft, mae'r plant yn awyddus i ddangos i'r staff y blodau a'r dail y maent wedi dod o hyd iddynt wrth chwarae yn yr awyr agored ac maent yn trafod yr hyn y byddant yn ei ychwanegu at eu 'stiw' yn y gegin fwd. Maent yn gwenu wrth i'r staff ddangos brwdfrydedd mawr wrth ymateb i'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

Mae'r plant yn amlwg yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn hyderus i fynd at ymwelwyr i drafod yr hyn maent yn ei wneud. Maent yn hyderus i fynegi eu dymuniadau a'u hanghenion i'r staff ac yn gwybod y bydd eu dymuniadau'n cael eu parchu. Er enghraifft, pan ofynnodd un plentyn am gael gwisgo sandalau i chwarae yn yr awyr agored yn lle ei esgidiau, aeth y staff ati'n gyflym i'w helpu i wisgo esgidiau sandal o'r bocs. Pan ofynnodd plentyn arall am gael lliwio llun yn lle chwarae yn yr awyr agored, aeth y staff ati'n gyflym i'w helpu i ddewis llun a gofyn iddo a oedd angen paent neu bensiliau arno.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau. Er enghraifft, gweithiodd y plant gyda'i gilydd i ddod o hyd i eitemau yn yr ardd i fwydo'r cwningod, gan drafod yn frwdfrydig pa blanhigion, ffrwythau a llysiau y mae cwningod yn mwynhau eu bwyta wrth iddynt chwilio. Mae'r plant yn dysgu cymryd eu tro a rhannu adnoddau. Er enghraifft, gwnaethant gymryd eu tro i ddefnyddio'r beiciau a'r sgwteri, gan aros yn amyneddgar i'w ffrindiau orffen chwarae gyda'u sgwter dewisol heb fawr ddim cymorth gan y staff.

Mae'r plant yn awyddus i archwilio eu hamgylchedd ac yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael. Er enghraifft, gwelsom grŵp o blant yn mwynhau creu prydau ac arbrofi yn y gegin fwd. Roeddent yn canolbwyntio'n dda yn ystod y gweithgaredd, gan gymryd eu tro i ychwanegu eitemau at y potiau ac i chwarae â'r dŵr yn y sinc. Roedd grŵp o blant iau yn mwynhau creu patrymau yn slabiau'r palmant gan ddefnyddio sialciau mawr. Roeddent yn canolbwyntio'n dda wrth greu patrymau ac arbrofi â lliwiau gwahanol, yn awyddus i ddangos y patrymau roeddent wedi'u creu i'r staff.

Caiff pob plentyn ei annog a'i gefnogi i wneud pethau drosto'i hun. Maent yn cwblhau rhai tasgau hunanofal yn annibynnol, gyda chymorth os oes angen. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo eu hunain mor annibynnol â phosibl ac yn defnyddio llieiniau golchi unigol i sychu eu dwylo a'u hwynebau eu hunain ar ôl bwyta. Mae pob plentyn yn arwain ac yn cyfarwyddo ei chwarae ac yn dewis adnoddau fel y mynna. Y rheswm dros hyn yw bod y

teganau a'r gweithgareddau wedi'u gosod mewn ffordd sy'n galluogi'r plant i gael gafael arnynt yn hawdd ac yn annibynnol.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn hyderus ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai ganddynt bryder am blentyn, ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant. Mae'r staff yn sicrhau bod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal fel bod y plant a'r staff yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng. Mae gan y staff dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol a chaiff unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau eu cofnodi'n effeithiol a'u rhannu â'r rhieni.

Mae'r staff yn annog ffyrdd iach o fyw drwy ddarparu digon o gyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff a threulio amser allan yn yr awyr iach. Caiff hylendid da ei hyrwyddo, gyda'r staff yn annog ac yn cefnogi pob plentyn i olchi ei ddwylo yn ôl yr angen. Mae amrywiaeth eang o brydau a byrbrydau iach ar gael i'r plant. Mae systemau effeithlon ar waith i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ofynion deietegol unigol y plant er mwyn iddynt allu sicrhau bod y plant yn cael prydau a byrbrydau addas.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae'r staff yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn tynnu sylw'r plant drwy gynnig gweithgaredd arall os ydynt yn ei chael hi'n anodd rhannu neu gymryd eu tro, ac yn rhoi esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r staff hefyd yn modelu sgiliau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant; maent yn modelu dweud diolch a chanmol ei gilydd yn ystod gweithgareddau.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau llawn hwyl y maent yn gwybod y bydd y plant yn eu mwynhau, gan gynnwys cymysgedd da o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Mae'r staff yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad, gan eu helpu i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol.

Mae'r staff yn cwblhau cynlluniau gweithgareddau rheolaidd, sy'n ymgorffori diddordebau'r plant mewn thema. Caiff y cynlluniau hyn eu haddasu yn unol â diddordebau'r plant bob dydd hefyd. Er enghraifft, pan ddangosodd un plentyn ddiddordeb yn y teganau crancod wrth chwarae â ffigyrau creaduriaid y môr, argraffodd y staff luniau o grancod er mwyn iddo eu lliwio a daethant o hyd i fideos y gallent eu gwylio gyda'i gilydd er mwyn dysgu a thrafod yr hyn a welwyd. Mae gan y staff weithdrefnau effeithiol ar waith i geisio a darparu cymorth i blant ag anghenion ychwanegol. Maent yn cofnodi arsylwadau ac yn nodi unrhyw bryderon yn ffeiliau unigol y plant, ac maent yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod y plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel. Er enghraifft, caiff mynediad i'r lleoliad ei reoli, gan gynnwys drysau allanol sy'n cael eu cadw ar glo, a gofynnir i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd. Mae'r staff yn cadw cofrestr gywir o bresenoldeb y plant, gan gynnwys amseroedd cyrraedd a gadael pob plentyn. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith, sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerwyd i reoli neu ddileu'r peryglon hyn. Caiff y dogfennau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff unrhyw beryglon posibl eu monitro a'u rheoli'n effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn cynnwys digon o le, yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac yn groesawgar. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i'r plant archwilio a chwarae er mwyn datblygu eu dychymyg. Mae hyn yn cynnwys ardal laswellt â chegin fwd, gardd â theiars wedi'u hailgylchu ar gyfer plannu ac archwilio synhwyraidd, ac ardal balmant lle y gall y plant chwarae ar amrywiaeth o deganau reidio. Mae'r plant hefyd yn cael cyfle i helpu i ofalu am y cwningod sy'n byw yn y cwt cwningod yn yr ardal awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn annog y plant i fod yn ddysgwyr chwilfrydig. Y tu mewn i'r lleoliad, ceir ystafell chwilfrydedd, sydd wedi'i gosod fel lolfa go iawn â gwrthrychau bywyd go iawn. Mae hyn yn galluogi'r plant i gael cyfleoedd i feithrin dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas ac i ddatblygu eu dychymyg drwy archwilio'r amgylchedd hwn mewn grwpiau bach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau sydd mewn cyflwr da ac sy'n briodol ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant. Caiff teganau ac adnoddau eu storio ar lefel isel fel y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd ac yn annibynnol. Mae'r celfi a'r adnoddau ym mhob ystafell chwarae wedi cael ystyriaeth ofalus ac o faint addas ar gyfer oedrannau'r plant a fydd yn eu defnyddio. Mae'r toiledau yn cynnwys cyfleusterau addas, gyda sinciau a thoiledau isel i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Caiff yr holl deganau ac adnoddau eu glanhau'n rheolaidd, a chaiff cofnodion eu cadw pan gaiff y tasgau hyn eu cwblhau er mwyn eu monitro'n effeithiol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gweledigaeth glir â'r staff ac mae ganddynt amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, sy'n cyfrannu'n effeithiol at redeg y lleoliad yn hwylus. Maent yn adolygu'r polisïau hyn yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn rhoi disgrifiad clir a chywir o'r gwasanaeth a gynigir. Mae hyn yn golygu y gall rhieni wneud penderfyniad gwybodus o ran p'un a yw'r lleoliad yn diwallu anghenion eu plentyn.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad drefniadau cadarn i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn gofyn yn rheolaidd am adborth ar lafar gan y rhieni yn ogystal â thrwy anfon holiaduron adborth at y rhieni a'r staff. Caiff adborth hefyd ei gasglu gan y plant drwy drafodaethau a thrwy gynnal arsylwadau dyddiol. Yna, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llunio adroddiad mewn ymateb i'r adborth a gafwyd, gan nodi unrhyw welliannau a wnaed hyd yma a'r rhai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae angen i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad sicrhau bod digon o staff yn bresennol bob amser i wneud yn siŵr bod y plant yn cael eu goruchwylio'n briodol a bod y staff yn gallu cwblhau tasgau cyffredinol yn effeithiol. Nid oedd hyn yn wir bob amser yn ystod yr ymweliad arolygu gan fod cyfnodau pan mai dim ond dau aelod o'r staff oedd yn bresennol, yr oedd angen iddynt gwblhau nifer o dasgau. O ganlyniad, ni chafodd rhai o'r plant eu cynnwys mewn gweithgareddau. Nid oedd y cymarebau staffio bob amser yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol gan mai dim ond dau aelod o'r staff oedd yn gofalu am wyth plentyn, yr oedd pedwar ohonynt dan ddwy oed.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith er mwyn diogelu'r plant. Roedd ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu mynd at y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ar unrhyw adeg i drafod unrhyw faterion a'u hanghenion hyfforddiant. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig a oedd yn dangos bod arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal yn ogystal â chyfarfodydd staff rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd cyfarfodydd goruchwylio unigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd rhwng yr arfarniadau blynyddol hyn, ac nid oedd rhai o'r staff wedi cael cyfarfod goruchwylio unigol ers dros chwe mis. Mae hyn wedi ei gofnodi'n faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad gymryd camau gweithredu prydlon.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau priodol ar waith i gyfathrebu â'r rhieni, gan roi gwybodaeth reolaidd iddynt am amser eu plentyn yn y lleoliad. Mae'r staff yn cwblhau dyddiaduron dyddiol unigol er mwyn rhannu gwybodaeth â'r rhieni am y gweithgareddau y mae'r plant wedi cymryd rhan ynddynt, faint o fwyd y maent wedi ei fwyta, eu hamseroedd cysgu, manylion eu hanghenion o ran defnyddio'r toiled, unrhyw newidiadau i'w hwyliau a'u cyflawniadau. Mae hyn yn sicrhau bod y rhieni yn cael digon o fanylion am amser eu plant yn y lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| 29 | Dylai'r person cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ac ystyrlon. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| **Safon** | **Argymhelliad/argymhellion** |
| Safon 15 - Cymarebau staffio | Sicrhau y cydymffurfir â'r cymarebau staffio priodol bob amser fel bod y staff yn gallu cyflawni eu dyletswyddau a goruchwylio'r plant yn effeithiol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/07/2024